Penmachno & Dolwyddelan Walks 5/1/08 5:23 PM Page 12



# 3a Dolwyddelan – Llyn Elsi – Betws-y-coed



Mae'r teithiau llinellol hyn yn cysylltu Dolwyddelan gyda Betws-y-coed a Chapel Curig. Gallwch uno llwybrau Betws-y-coed i greu un daith gylch hirach, neu gallwch ddefnyddio'r trên ar ddechrau neu ar ddiwedd eich taith gerdded. Mae bysiau'n cysylltu Capel Curig gyda Betws-y-coed neu gallwch fynd yn ôl yr un ffordd. Cofiwch fod y trenau'n llai aml ar ddydd Sul felly edrychwch ar y daflen amser cyn cychwyn.



## 3a Heibio Llyn Elsi

**Pellter:** 10.5km / 6.5milltir, tua 3.5-4awr
**Graddfa:** Cymedrol, dringo serth un waith
**Crynodeb:** Glan afon, llyn hardd a golygfeydd eang

### Y Daith Gerdded

**1.** Dilynwch Daith 2 hyd at Tanaeldroch (pwynt 2). Ewch ymlaen heibio'r fferm ar hyd y dreif, troi i'r dde dros y gamfa yn union cyn cyrraedd y bont a cherdded drwy'r gwersyll sydd ar lan yr afon. Ewch dros y gamfa ac i'r coed. Pan fydd fforch yn y llwybr, anwybyddwch y llwybr i'r chwith a mynd yn syth ymlaen i bont y rheilffordd (Pont Gethin). Ewch o dan y bont ac yna tua'r chwith gan ddilyn y llwybr wrth ochr y ffens a'r tŷ cerrig. Trowch i'r chwith i'r llwybr llydan ac i'r chwith eto drwy hen byst giatiau. Dilynwch y llwybr i hen bont bren a chroesi'r afon.

**2.** Ewch ymlaen i'r A470, croesi'n ofalus, a throi i'r chwith ar hyd y ffordd gan fynd o dan Bont Gethin ac wedyn ewch i'r dde ar unwaith i'r llwybr llydan arwyddedig 'Craig Lledr'. Ymhen tua 60m, ewch i'r chwith i'r llwybr cul arwyddedig gan godi'n groeslinol at y bont dros y nant. Ewch ymlaen ar y llwybr gan ddringo'n fwy serth. Croeswch y nant eto ac anwybyddu'r mân lwybrau ar bob ochr. Croeswch ffordd y goedwig ac ewch ymlaen ar y llwybr amlwg. I'r dde ar gyffordd 'T' y llwybrau yn ymyl adfail ar y chwith, a dal i ddringo'n raddol. Bydd y wal gerrig ar y dde. Ewch ymlaen ar y llwybr amlwg gan ddringo i ffordd y goedwig. Trowch i'r dde a dilyn ffordd y goedwig sydd uwchben Llyn Elsi. Pan fydd y ffordd yn gadael y llyn, dilynwch y llwybr sydd yn syth ymlaen gan fynd wrth ymyl y llyn ac at y gofeb wrth y llyn.

**3.** O'r gofeb, gymerwch ofal mawr i ddilyn y llwybr sydd yn union gyferbyn â'r llwybr rydych chi newydd ei adael (mae nifer o lwybrau yma), gan groesi'r tir agored am gyfnod byr ac yna mynd i mewn i'r goedwig. Croeswch ffordd y goedwig a dal ymlaen ar y llwybr gan ddod i lawr yn serth. Croeswch ail ffordd y goedwig sydd tua hanner y ffordd i lawr y bryn, a dal i igam-ogamu ar i lawr. Croeswch y bont ac ymuno â'r llwybr llydan gan ei ddilyn ar i lawr ac wedyn ymuno â'r ffordd sydd y tu ôl i Eglwys y Santes Fair ym Metws-y-coed. Cerddwch i lawr i'r ffordd fawr a throi i'r dde, wedyn i'r chwith ar y gyffordd nesaf ac i'r orsaf. (Os hoffech ddychwelyd ar Sarn Helen, trowch i'r chwith ar hyd y brif ffordd ac i'r dde dros yr afon, gan ddilyn Taith 3b, ond y ffordd chwith).




These linear routes link Dolwyddelan with Betws-y-coed and Capel Curig. You can link the Betws-y-coed routes to make a longer circular walk or use the train for the outgoing or return journey. Buses link Capel Curig with Betws-y-coed or you can retrace your steps on this short route. NB Trains and buses are less frequent on Sundays so check timetables before setting out.

## 3a Via Llyn Elsi

**Distance:** 10.5km/6.5miles, allow 3.5-4hrs
**Grade:** Moderate with one steep climb
**Summary:** Scenic riverside and lake with wide views

### The Route

**1.** Follow walk 2 to Tan-aeldroch farm (point 2). Continue past the farm along the drive and turn right over a stile immediately before the bridge and walk through a riverside campsite. Go over a stile into woodland. At path fork, ignore path left and continue ahead to the railway viaduct (Pont Gethin). Go under the arch and bear left following path alongside the fence to a stone house. Turn left onto track and left again through an old gateway. Follow the path to a wooden footbridge and cross the river.

**2.** Continue to the A470 and cross carefully. Turn left along the road, passing under Pont Gethin and then immediately turn right onto a track, signed Craig Lledr. After approx 60m turn left onto a narrow signed path, rising diagonally to a footbridge over a stream. Continue on path climbing more steeply up the hillside, recrossing the stream and ignoring minor paths on either side. Cross a forest road and continue ahead on the clear footpath. Turn right at a path T-junction near ruins on the left, and continue gradually climbing. Walk alongside a stone wall on the right then continue on the clear path climbing to a forest road. Turn right and follow the forest road above Llyn Elsi. Where the track turns away from the lake, take the path ahead along the lakeside leading to the monument overlooking the lake.

**3.** From the monument take care to follow the path directly opposite the one you arrived on (there are several paths), crossing open ground for a short distance then entering woodland. Cross a forest road and continue ahead on the footpath, descending steeply. Cross a second forest road half-way down the hillside and continue zig-zagging downhill. Cross a footbridge to join a track and follow this down to join the road behind the church in Betws-y-coed. Walk down to the main road and turn right, then left at next junction to the station. (To return via Sarn Helen turn left along the main road and right over the bridge, following route 3b in reverse.)



*Gylfingroes*
*Crossbill*